Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Birribi

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Birribi

Mae Birribi Education wedi cofrestru fel ysgol annibynnol arbennig. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer hyd at ddeg disgybl rhwng 8 ac 18 oed sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni, nad ydynt yn gallu cael addysg prif ffrwd. Mae'n gweithredu mewn ystafelloedd dosbarth sy'n gysylltiedig â phob un o dri chartref plant y cwmni ledled Sir Benfro. Agorwyd yr ysgol ym mis Ebrill 2016.

Mae'r ysgol yn darparu addysg amser llawn ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY), anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) ac anawsterau dysgu cysylltiedig. Mae pum disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd, ac mae gan bedwar ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae pob un o'r disgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac fe gânt eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith.

Cynhaliwyd yr ymweliad monitro diwethaf ym mis Chwefror 2018. Ers yr ymweliad hwnnw, mae'r ysgol wedi ymestyn ei darpariaeth i gynnwys ystafell ddosbarth ar safle pob cartref plant, ac mae wedi cynyddu nifer y disgyblion ar y gofrestr o un i bump.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2017. Cynorthwyir y pennaeth gan dri o athrawon amser llawn a thri chynorthwyydd cymorth dysgu.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae gan athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu ddealltwriaeth gref o anghenion a galluoedd eu disgyblion. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu tawel a chefnogol ar gyfer disgyblion sydd ag ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn meithrin perthnasoedd gweithio effeithiol a phwrpasol gyda disgyblion, sy'n eu galluogi i ddatblygu gwydnwch, magu hyder a gwella eu parodrwydd ar gyfer dysgu. Mae hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau dysgu a datblygiad personol.

Caiff yr ystafelloedd dosbarth eu cynnal yn dda ag arddangosfeydd lliwgar sy'n darparu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae'r defnydd o ardaloedd allanol yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, y tu allan i un o'r ystafelloedd dosbarth, mae disgyblion yn tyfu llysiau ac yn darparu gorsafoedd bwydo a blychau nythu ar gyfer adar.

Mae'r ysgol yn sefydlu prosesau defnyddiol i nodi mannau cychwyn ac anghenion dysgu unigol disgyblion. Gwna athrawon ddefnydd creadigol o'r wybodaeth hon i gynllunio profiadau dysgu difyr sy'n gweddu'n dda i alluoedd a diddordebau disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu ei chwricwlwm a'i darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion unigol yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a datblygu medrau bywyd pwysig fel coginio a thrin arian. Ceir trefniadau buddiol i ddisgyblion fynychu lleoliadau profiad gwaith a chadw'n heini a gweithgar trwy brofiadau dysgu yn yr awyr agored ac ymweliadau â'r ganolfan hamdden.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r ysgol yn cynnig rhesymeg glir ar gyfer rôl dysgu yn yr awyr agored fel nodwedd allweddol o'i darpariaeth. Fodd bynnag, nid oes ganddi drefniadau addas i olrhain y cynnydd a wna disgyblion trwy'r gweithgareddau hyn. At ei gilydd, megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio a chynlluniau gwaith ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, yn ogystal ag ar gyfer pynciau fel celf a chrefft, y dyniaethau, a choginio.

Nid oes gan yr ysgol ddealltwriaeth ddigon cryf o ddiben hunanwerthuso. O ganlyniad, nid yw gweithgareddau sicrhau ansawdd yn adlewyrchu natur a gofynion yr ysgol yn ddigon da nac yn cynorthwyo'r ysgol i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella.

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Cryfhau'r cynllunio ar gyfer holl feysydd y cwricwlwm, gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored

A3 Mireinio prosesau sicrhau ansawdd a'u defnydd i lywio cynllunio gwelliant

A4 Parhau i adolygu polisïau a sicrhau eu bod yn arwain arfer yn yr ysgol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Parhau i ddatblygu cynlluniau gwaith priodol ar gyfer pynciau ar draws y cwricwlwm**

Mae'r ysgol yn datblygu cynlluniau gwaith sy'n gweddu'n dda i anghenion penodol disgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn fanwl ac yn cefnogi cynllunio tymor canolig a thymor byr yn briodol. Ceir cynlluniau gwaith addas hefyd ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd.

Megis dechrau datblygu y mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer pynciau fel celf a chrefft, coginio a dysgu yn yr awyr agored. Yn benodol, nid yw'r cynlluniau amlinellol presennol yn nodi sut byddant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol disgyblion.

**Argymhelliad 2: Adolygu asesiadau risg oddi ar y safle i sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth ddigonol a manwl am yr ymweliad**

Mae'r ysgol wedi adolygu asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle i sicrhau bod y rhain yn cynnwys digon o fanylion am yr ymweliad arfaethedig. Mae'r pennaeth yn ymweld â phob lleoliad a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle i asesu'r risgiau a sicrhau bod asesiadau risg yn nodi nodweddion penodol yn briodol fel y lleoliad, unrhyw beryglon arwyddocaol, a'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd i leihau risgiau posibl.

Ategir asesiadau oddi ar y safle gan asesiadau unigol manwl sy'n nodi'n glir y ffactorau risg penodol ar gyfer pob disgybl. At ei gilydd, mae'r prosesau hyn yn rhoi digon o wybodaeth i athrawon i'w galluogi i gynllunio a rheoli ystod eang o weithgareddau diddorol oddi ar y safle yn ddiogel.

**Argymhelliad 3: Diweddaru'r holl bolisïau yn rheolaidd a sicrhau eu bod yn bolisïau sy'n benodol i'r ysgol**

Mae gan yr ysgol ystod addas o bolisïau ar waith i gefnogi ei gwaith. Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r pennaeth wedi dechrau adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn benodol i'r ysgol. Fodd bynnag, o ystyried faint o amser sydd ers yr ymweliad monitro diwethaf, bu cynnydd yn unol â'r argymhelliad hwn yn rhy araf. Mae lleiafrif o bolisïau yn rhy generig ac nid ydynt yn adlewyrchu arweiniad nac arfer berthnasol yn yr ysgol yn ddigon da. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn ddigon clir i arwain arfer dda gyson yn yr ysgol, na darparu fframwaith defnyddiol i helpu'r ysgol i werthuso'i gwaith.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso wedi'u seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol ac yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau a chynnydd disgyblion**

Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth am ddisgyblion unigol yn llwyddiannus i sicrhau bod eu cynllunio yn briodol i anghenion disgyblion, ac yn cefnogi eu cynnydd yn y dyfodol yn effeithiol. Mae'r agwedd bwysig hon ar hunanwerthuso'r ysgol yn datblygu'n dda. Eleni, mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o weithgareddau hunanwerthuso i sicrhau ansawdd ei gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau gwersi, gwerthusiadau gwersi disgyblion, gwerthusiadau gwersi athrawon a myfyrdod, a holiaduron lles disgyblion. Mae'r ysgol hefyd wedi sefydlu asesiadau gwaelodlin addas ac wedi datblygu ffurflen broffil ddefnyddiol ar gyfer disgyblion i gofnodi agweddau ar gynnydd disgyblion i gefnogi hunanwerthuso. Fodd bynnag, nid yw'r cyswllt rhwng y gweithgareddau hyn a gwerthusiad cyffredinol yr ysgol o safonau, cynnydd, lles ac addysgu, wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Yn benodol, nid yw'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth y mae'n ei chasglu i werthuso'r hyn y mae'n ei wneud yn dda a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

**Argymhelliad 5: Gofyn am gyngor gan Lywodraeth Cymru ynghylch derbyn disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol**

Mae'r ysgol wedi diwygio manylion ei chofrestriad gyda Llywodraeth Cymru i gynnwys derbyn disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau ei bod yn rhoi cyfeiriad a rhif ffôn yr ysgol ac enw'r pennaeth i rieni disgyblion a darpar ddisgyblion [6(2)(a)]
- Sicrhau ei bod yn rhoi manylion am bolisi'r ysgol a'r trefniadau ar gyfer derbyn, disgyblu a gwaharddiadau i rieni disgyblion a darpar ddisgyblion [6(2)(e)]
- Sicrhau ei bod yn rhoi manylion am ddarpariaeth addysgol a lles ar gyfer disgyblion â datganiadau ac ar gyfer disgyblion y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt i rieni disgyblion a darpar ddisgyblion [6(2)(f)]

Yn ychwanegol, dylai'r ysgol sicrhau bod y wybodaeth ganlynol ar gael a'i gwneud yn glir i rieni disgyblion a darpar ddisgyblion y gallent ofyn amdani:

- Manylion am bolisïau'n ymwneud â bwlio, diogelu plant, iechyd a diogelwch, hyrwyddo ymddygiad da, a chosbau a gymhwysir os bydd disgyblion yn camymddwyn (gweler paragraff 3 (2) y Rheoliadau) [6(2)(h])
- Manylion am y weithdrefn gwyno a gymhwysir gan yr ysgol, ynghyd â manylion am nifer y cwynion a gofrestrwyd o dan y weithdrefn ffurfiol yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol [6(2)(j)]
- Nifer y staff a gyflogir yn yr ysgol, gan gynnwys staff dros dro, a chrynodeb o'u cymwysterau [6(2)(k)]

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodir uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2019